# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
# 13/02/25

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Cai Larsen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Rhys Tudur (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Beca Brown, Jina Gwyrfai, Iwan Huws, Dawn Lynne Jones, Elwyn Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Beth Lawton, Dewi Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Dyfrig Siencyn a Sian Williams.

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) a Gwilym Jones (NASUWT).

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts a Jasmine Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 -** Y Cynghorydd Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Dylan Griffiths (Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Economaidd) ac Osian Elis (Arweinydd Tîm Datblygu Busnesau Gwynedd).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6 -** Y Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Rhys Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd) a Meirion Prys Jones (Ymgynghorydd). Hefyd, sylwedyddion o'r Pwyllgor Iaith – Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones ac Elfed Williams.

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7 -** Y Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg) a Rhys Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8** – Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol).

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod:-
- Aelodau newydd ar y pwyllgor - Y Cynghorwyr Beca Brown a Dyfrig Siencyn.
- Aelodau o'r Pwyllgor Iaith a wahoddwyd fel sylwedyddion ar gyfer eitem 6.

Cyn cychwyn ar y trafodaethau, mynegodd y Cadeirydd ei siomedigaeth nad oedd yr un o'r tair prif eitem ar y rhaglen yn cynnwys y wybodaeth a ddisgwylid wrth raglennu'r eitemau ar gyfer y cyfarfod hwn. Ychwanegodd, er ei bod yn ddealladwy bod llif gwaith weithiau'n arafach na'r bwriad gwreiddiol, y byddai wedi bod yn llawer haws i'r pwyllgor petai rhag rybudd amserol wedi'i roi o hynny.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gwynfor Owen.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2024 fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN ECONOMI GWYNEDD

Croesawyd yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned i'w gyfarfod cyntaf o'r pwyllgor craffu ac fe'i longyfarchwyd ar ei benodiad. Croesawyd y Pennaeth Economi a Chymuned a'r swyddogion i'r cyfarfod hefyd.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet yn gwahodd mewnbwn yr aelodau ar y cynnwys ac ar faterion pellach y credir y dylid eu hystyried wrth greu Cynllun Economi Gwynedd.

Nododd yr Aelod Cabinet ar y cychwyn fod yr eitem hon yn dilyn ymlaen o'r drafodaeth yng nghyfarfod y pwyllgor craffu ar 25 Ionawr 2024 ynglŷn â gweithredu'r Prosiect Datblygu Economi Gwynedd.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cadeirydd ar gychwyn y cyfarfod, eglurodd y Pennaeth Economi a Chymuned:-

- Ei bod yn deg dweud, pan gyflwynwyd yr adroddiad llynedd, y disgwylid bod mewn sefyllfa reit wahanol erbyn hyn.
- Mai'r gobaith hydref diwethaf, pan gafwyd trafodaeth yn y Tîm Arweinyddiaeth, oedd y byddai dogfen wedi'i chwblhau erbyn hyn i gael ei chraffu. Nid oedd hynny wedi digwydd, er bod llawer o waith wedi digwydd.
- Bod angen mynd yn ôl i'r Tîm Arweinyddiaeth, a chredid bod mantais cael mewnbwn y pwyllgor hwn heddiw i'r egwyddorion a'r cyfeiriad fel bod y ddogfen fydd yn cael ei chyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth yn ymgorffori sylwadau'r craffwyr.
- Nad oedd drafft o'r ddogfen orffenedig yn barod heddiw gan fod yr Adran wedi ail-raglennu gwaith ers yr hydref. Roedd hynny wedi digwydd am sawl rheswm, gan gynnwys ail-gychwyn gosod cyfeiriad newydd yn sgil penodi Aelod Cabinet newydd ac ail-gynllunio blaenoriaethau gwaith i ymdopi â blwyddyn ychwanegol o waith yn sgil penderfyniad Llywodraeth y DU i ymestyn y Gronfa Ffyniant Bro am flwyddyn ychwanegol.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun i'r adroddiad gan nodi:-

- Bod cadarnhad Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) y bydd y Gronfa Ffyniant Bro yn parhau am flwyddyn bellach i 2025/26 i'w groesawu, ond y gellid bod yn sicr y bydd y tirlun ariannol yn newid unwaith eto ar ôl Ebrill, 2026. O ganlyniad, roedd y gofyn i'r Cyngor hwn ystyried ei flaenoriaethau economaidd yn parhau.
- Y byddai sicrhau dogfen sy'n datgan ein dyhead yn glir hefyd yn arf pwysig i ddylanwadu ar y trafodaethau gan y ddwy lywodraeth o fewn Rhanbarth y Gogledd.

- Mai bwriad yr adroddiad gerbron oedd crynhoi'r negeseuon sydd i law a derbyn sylwadau ac adborth gan y craffwyr cyn symud ymlaen i gwblhau llunio Cynllun Strategol Datblygu'r Economi a'i fabwysiadu yn y flwyddyn ariannol newydd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Mynegwyd y farn ei bod yn anodd craffu ar adroddiad cynnydd a bod yr aelodau wedi gobeithio craffu drafft o Gynllun Economi Gwynedd yn y cyfarfod hwn. Nodwyd na ellid bod yn siŵr a fyddai yna gyfle arall i'r pwyllgor hwn graffu'r cynllun cyn iddo fynd i'r Cabinet ym mis Ebrill. Pwysleisiwyd ei bod yn hollbwysig i Wynedd gael strategaeth lefel uchel gyda'r newidiadau tebygol yn y rhaglenni ariannu. Er hynny, nodwyd y cydnabyddid bod yna waith da iawn wedi'i wneud mewn rhai meysydd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y cytunid ei bod yn bwysig cael dogfen sy'n adnabod yn glir beth yw blaenoriaethau Gwynedd fel sir fel bod modd ei defnyddio i ddylanwadu a thargedu arian i'r dyfodol.
- Bod pawb wedi disgwyl y byddai'r arian i gyd wedi dod i ben ar 1 Ebrill 2025 a bod angen y ddogfen eleni. Fodd bynnag, roedd ymestyn yr arian am flwyddyn ychwanegol yn golygu bod rhaid i'r staff ymdopi â chynllunio'r gwaith o baratoi'r ddogfen ochr yn ochr â rhedeg rhaglen ariannu newydd ar gyfer 2025/26.
- Y gobeithid gallu dod â dogfen ddrafft i'r pwyllgor i'w chraffu yn y misoedd nesaf. Anelid at gael dogfen wedi'i chytuno yn 2025/26 fel ei bod mewn lle i ddylanwadu ar raglenni 2026/27.

Holwyd a fyddai yna gyfle i'r pwyllgor hwn graffu'r drafft o'r Cynllun Economi cyn iddo fynd gerbron y Cabinet. Mewn ymateb, nodwyd y credid ei bod yn hanfodol gwneud hynny. Fodd bynnag, gan fod bwriad i gyflwyno'r ddogfen ddrafft i'r Cabinet ar yr 8fed o Ebrill a bod y pwyllgor hwn ddim yn cyfarfod eto tan y 10fed o Ebrill, awgrymwyd o bosib' y byddai'n rhaid symud yr eitem Cabinet yn ei blaen.

Nodwyd y dylid ystyried goblygiadau'r holl newidiadau sy'n digwydd yn y byd amaeth ar y funud a phwysigrwydd y maes i Wynedd. Mynegwyd yr angen i'r Adran fod mewn cysylltiad â'r undebau amaeth yng Nghymru. Pwysleisiwyd bod goblygiadau'r newidiadau yn enfawr i gefn gwlad Gwynedd ac yn bellgyrhaeddol hefyd i fusnesau gwledig sy'n ddibynnol ar y byd amaeth. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y dadansoddiad o'r economi yn dangos gwerth a phwysigrwydd amaethyddiaeth ac y byddai angen i'r Cynllun Economi roi sylw i'r newidiadau a'r bygythiadau sy'n wynebu'r sector.
- Nad oedd trafodaethau wedi'u cynnal hyd yma gyda'r undebau amaeth, ond o ran y sector bwyd amaeth yn ehangach, y byddai'r Cynllun Economi yn cyfarch prosiectau blaenoriaeth sy'n cael eu cynllunio, megis Hwb Economi Wledig Glynllifon.
- Bod y ddogfen gychwynnol yn manylu ar broffil yr economi a pha rannau o'r economi sy'n bwysig er mwyn gallu adnabod risgiau a lle mae angen twf yn yr economi.
- O ran ymgysylltu'n ehangach, y cynhaliwyd trafodaethau gyda phartneriaid strategol y Cyngor, megis Prifysgol Bangor a Grŵp Llandrillo Menai a chyrff sy'n cynrychioli busnesau, megis Ffederasiwn y Busnesau Bach, o ran darparu cefnogaeth i fusnesau yn y sir.

- Bod yr Arolwg Busnes y cyfeirir ato ym mharagraff 5.1 o'r adroddiad yn ymarferiad a wnaethpwyd llynedd i ymgysylltu gyda busnesau yn y sir, ac y derbyniwyd 130 o ymatebion i'r arolwg.
- Mai pwrpas yr ymarferiad oedd adnabod beth yw bwriadau ac amcanion y busnesau dros y cyfnod o'u blaenau, yr heriau sy'n eu hwynebu a'r cyfleoedd y dymunent fanteisio arnynt, fel bod modd gweld oes bwriad ganddynt i dyfu, neu ydyn nhw'n darogan y byddent yn crebachu.
- Mai heriau recriwtio yw un o'r prif heriau sy'n wynebu'r busnesau. Roedd hynny'n adlewyrchu tueddiadau ehangach o ran demograffi yn y sir, ac roedd yr Adran yn fyw iawn i'r rheini yn yr adroddiad.
- Bod negeseuon hefyd yn cael eu cyfleu, nid yn unig am hyfywedd y busnesau a sut rydym am allu ymateb i hynny, ond hefyd o ran sut y gallwn gefnogi'r busnesau hynny i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a gwelededd y Gymraeg.
- Y bwriedid ymateb i negeseuon y busnesau yn y Cynllun Economi er mwyn sicrhau cynllun sy'n addas i'r amodau mae busnesau yn eu hwynebu yn y sir.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r amserlen. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd bwriad i fynd â'r Cynllun terfynol i'r Cabinet i gael ei fabwysiadu ddechrau Ebrill ac y byddai yna gyfle i'r aelodau graffu'r ddogfen ddrafft yn ystod y flwyddyn nesaf.
- Y dymunid cael mewnbwn y craffwyr i'r trafodaethau fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn rhwng y ddwy Lywodraeth a bod yr Adran hefyd yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn sicrhau bod llais awdurdodau lleol yn rhan o'r drafodaeth honno.

Pwysleisiwyd yr angen i roi ffocws neilltuol yn y Cynllun Economi i'r diwydiant adeiladu, yn benodol yn Nwyfor a Meirionnydd, o ystyried effaith polisïau eraill y Cyngor, megis y Premiwm Treth Cyngor, ar y diwydiant. Nodwyd hefyd y byddai'n fuddiol gwybod pa mor ddibynnol yw busnesau yn y gwahanol rannau o Wynedd ar lafur plant dibynnol (hy ieuengach nag 16), myfyrwyr ôl 16 a myfyrwyr 18-21, yn enwedig felly yn y sectorau lletygarwch a manwerthu, o gymharu ag awdurdodau eraill, yn genedlaethol ac ar lefel gwladwriaeth. Eglurwyd bod hyn yn rhan o gwestiwn ehangach, sef diffyg gweithwyr mewn diwydiannau penodol, gan y bydd y sefyllfa yn gwaethygu dros y degawdau nesaf wrth i gyfraddau genedigaethau ostwng. Cwestiynwyd pa mor hyfyw yw rhai o'r busnesau hyn o gwbl a chwestiynwyd faint mwy o fusnesau o'r fath y dymunir eu cael o ystyried mai'r nod yw sicrhau twf i bwrpas, ac nid twf er ei fwyn ei hun. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Na chredid bod y data sydd ar gael yn gwahaniaethu rhwng oed y gweithwyr.
- Bod y sefyllfa'n adlewyrchiad o ba mor dynn yw'r farchnad lafur yng Ngwynedd a bod llawer o ymdrech yn cael ei wneud drwy gynllun Gwaith Gwynedd i sicrhau bod pawb sy'n gallu gweithio yn gweithio ac i annog pobl i aros yn gynhyrchiol hefyd.

Holwyd a oedd yr Adran yn mynd i wrando ar ddymuniadau'r craffwyr a nodwyd y dylai'r Cynllun Economi gyfarch y materion isod:-

- Yr orddibyniaeth ar dwristiaeth sy'n gallu bod yn anwadal iawn.
- Yr angen i annog mwy o bobl i fentro mynd yn hunangyflogedig.

- Cynlluniau i ddatblygu ynni adnewyddol.
- Hyrwyddo diwydiannau gwerth uchel. Holwyd oni ddylai'r adroddiad i'r pwyllgor fod wedi cyfeirio at adroddiad ar y pwnc yma a baratowyd tua 5 mlynedd yn ôl?
- Yr holl faes digidol, sy'n faes lle gellir denu pobl i weithio o gartref yn hunangyflogedig.

Nodwyd ymhellach:-

- Y teimlid ein bod yn colli cyfleoedd a bod angen strategaeth oll-gynhwysol, yn hytrach na bratiog.
- Y croesawir y sylw a roddir i'r iaith yn yr adroddiad, ond dymunir gweld lle mae twristiaeth o ran effaith ar y Gymraeg gan na chredir bod y swyddi gwerth isel iawn yn y diwydiant twristiaeth yn ychwanegu at gadw ein hiaith a'n diwylliant, ond yn hytrach yn porthi tlodi a mwy o Seisnigrwydd.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau, nodwyd:-

- O ran y pwynt ynglŷn â siaradwyr Cymraeg o fewn y diwydiannau, bod canfyddiadau'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn adnabod y 3 diwydiant yng Ngwynedd sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg lle mae canran y siaradwyr yn uwch na'r ganran sydd yng Ngwynedd yn gyffredinol o siaradwyr Cymraeg. Gan hynny, awgrymid bod lle o hyd i gynyddu defnydd a gwelededd y Gymraeg yn y diwydiannau eraill, megis twristiaeth.
- O ran y sylw ynglŷn â'r ystod o wahanol ddiwydiannau a pha ddiwydiannau sydd â photensial twf yng Ngwynedd, bod yr adroddiad yn disgrifio beth ydi sefyllfa'r economi heddiw. Roedd hynny'n cynnwys twristiaeth ac amaethyddiaeth, ac yn sicr roedd lle i ychwanegu gwerth pellach o'r rheini.
- Bod yr adroddiad hefyd yn cydnabod bod lle o hyd i dyfu mewn diwydiannau newydd, megis diwydiannau creadigol a digidol, a dod ag ychydig o amrywiaeth i'r economi a chreu mwy o gyfleoedd i bobl weithio i adnabod swyddi newydd pe dymunent, ayb.

Awgrymwyd y gallai rhwystrau cynllunio fod yn broblem wrth geisio sefydlu busnesau newydd, a gofynnwyd i ystyriaeth gael ei roi i hynny yn y Cynllun Economi. Nodwyd hefyd y dylid ail-edrych ar ddod â swyddi gwerth uchel i Lanbedr, ynghyd â Thrawsfynydd, yn sgil newid polisi Llywodraeth y DU. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y ceisid sicrhau ffyniant a swyddi yn y sir fydd yn creu cyfleoedd i'r genhedlaeth nesaf fedru aros yn eu cymunedau, a'i bod yn allweddol bwysig cael amrywiaeth o swyddi yn y sir sy'n gofyn am amrywiaeth o sgiliau gwahanol, fel nad ydym yn ddibynnol ar unrhyw un sector.
- Bod materion cynllunio yn destun trafodaeth sy'n mynd yn ôl ychydig ac y byddai'r Adran yn sicr yn cydweithio gyda swyddogion yn yr Adran Amgylchedd i drafod y manylion cyn dod yn ôl.

Nodwyd bod y mwyafrif o ffermwyr ifanc yn rhannau gwledig y sir ynghlwm â thwristiaeth, a heb dwristiaeth, fyddai yna ddim trefn ar amaeth chwaith. Nodwyd ymhellach y dylai'r Gwasanaeth Cynllunio a'r Adran Economi a Chymuned gydweithio yn agosach a chyfeiriwyd at sefyllfa cwmni oedd wedi penderfynu lleoli ym Mhowys yn hytrach na De Meirionnydd gan eu bod yn derbyn mwy o gefnogaeth yno. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mai prinder safleoedd addas ar ochr Gwynedd i'r ffin oedd wedi arwain at benderfyniad y cwmni dan sylw i sefydlu ym Mhowys.
- Y cydnabyddid bod yna rwystrau, ond byddai'r Cynllun yn edrych ar y dosbarthiad gofodol ar draws y sir er mwyn sicrhau bod yna gyfleoedd teg ar draws Gwynedd, yn hytrach na'u bod wedi'u cronni mewn rhai ardaloedd yn unig.

Nododd yr aelod ymhellach, er yn cydnabod bod prinder tir yn ffactor yn yr achos dan sylw, bod angen i'r Gwasanaeth Cynllunio fod yn fwy hyblyg, neu fel arall, bydd mwy o swyddi yn cael eu colli i Bowys.

Nodwyd y byddai'n fuddiol petai'r Cynllun Economi yn cyfleu rhyw fath o ddarlun o'r cyfraniadau mwy cudd mae pobl yn wneud yn eu cymunedau sy'n cyfrannu i'r economi mewn ffyrdd gwahanol i fod yn gynhyrchiol yn y farchnad lafur. Mewn ymateb nodwyd:-

- Na roddwyd sylw i gyfraniad ehangach pobl i gymdeithas yn y Cynllun hyd yma, ond gellid edrych ar sut i ymgorffori hynny o ran y darlun ehangach.
- Bod hynny hefyd yn codi'r cwestiwn ai cynllun datblygu'r economi ydyw, neu gynllun cymunedau llewyrchus, ac o bosib' bod angen ail-edrych ar bwrpas y Cynllun.

Nodwyd bod y maes economi yn hollbwysig i gymunedau Gwynedd, ond fel maes anstatudol, y byddai'n rhaid i'r Aelod Cabinet frwydo'n galed drosto yn y Cabinet yn erbyn meysydd eraill pwysig o waith y Cyngor.

Croesawyd y bwriad i roi ffocws ar gadw'r swyddi da sydd gennym yn y sir yn barod wrth geisio gwneud ymdrechion recriwtio oherwydd bod y swyddi hynny yn aml yn cael eu gweld fwy fel troed nodyn mewn adroddiad neu strategaeth economaidd, yn hytrach nag yn brif strategaeth y cynllun economaidd.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Bod y Pwyllgor yn craffu Cynllun Economi Gwynedd Drafft pan yn amserol yn ystod 2025/26.**

## 6. POLISI IAITH ADDYSG – Y DREFN YMGYSYLLTU

Adroddodd yr Aelod Cabinet Addysg fod yr adroddiad hwn wedi'i gyflwyno mewn ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor i dderbyn adroddiad am y drefn ymgysylltu yng nghyd-destun y Polisi Iaith Addysg newydd. Nodwyd bod yr adroddiad yn crynhoi'r drefn ymgysylltu mewn perthynas â Pholisi Iaith Addysg.

Gosodwyd y cyd-destun gan nodi bod Gwynedd yn awdurdod lleol â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a'r ganran uchaf o bobl ifanc sy'n cael addysg drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog. Nodwyd bod newidiadau ieithyddol yn y sir, ynghyd â dylanwad Llywodraeth Cymru ar addysg yng Nghymru, yn ei gwneud hi'n amserol adolygu Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd, a thrafod pa elfennau sy'n gweithio'n dda a pha newidiadau neu addasiadau allai fod eu hangen.

Esboniwyd bod yr Adran Addysg wedi mynd ati yn yr adroddiad i egluro'r drefn a'r broses. Nodwyd bod nifer o sesiynau ymgysylltu wedi'u cynnal gydag

ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ym mhob rhan o'r sir, a hynny mewn ardaloedd â gwahanol ganrannau siaradwyr Cymraeg. Cynhaliwyd cyfarfod ymgysylltu ar gyfer cynrychiolwyr megis Cylch yr Iaith, Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol yr Iaith a RHAG (Cymdeithas Rhieni ac Athrawon dros Addysg Gymraeg). Nodwyd ymhellach bod cynrychiolaeth o aelodau'r Pwyllgor hwn, y Pwyllgor Iaith a Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd hefyd wedi bod yn rhan o'r broses.

Mynegwyd mai'r bwriad yw creu Polisi Iaith cadarn ac addas i amgylchiadau Gwynedd, gan sicrhau bod modd adeiladu arno a'i ddatblygu yn y dyfodol. Nodwyd bod y gwir sefyllfa'n dangos bod yna lithriad yn y defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc yn y sir. Nodwyd ymhellach bod angen atal hynny a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Adroddodd Meirion Prys Jones (Ymgynghorydd) bod 29 o sgyrsiau wedi'u cynnal yn ystod y broses ymgysylltu ym mis Hydref, 2024 gydag ystod eang o gynrychiolwyr o'r maes addysg a rhieni. Nodwyd, yn sylfaenol, bod 10 cwestiwn i'w gofyn yn ystod y trafodaethau, ond bod cyfranogwyr yn rhydd i fynegi barn ar unrhyw fater yn ymwneud â Pholisi Iaith Addysg Gwynedd a chyflwyno awgrymiadau ar gyfer y dyfodol. Mynegwyd bod ymateb adeiladol a phositif wedi dod i law gan bob cyfranogwr, yn enwedig gan y disgyblion eu hunain.

Nodwyd mai prif gasgliadau'r ymgysylltiad yw bod y Polisi Iaith yn gweithio'n dda ac yn arwain at lwyddiant. Nodwyd bod pawb yn cefnogi'r Polisi Iaith, er nad oedd neb wedi'i ddarllen yn ddiweddar, gan arwain at fwy o 'ethos' a theimlad fod Polisi Iaith da'n bodoli, ond heb sicrwydd llwyr ynghylch beth sydd ynddo.

Amlygwyd bod hyn yn arwain at ddehongliad ac at weithredu gwahanol ar y Polisi Iaith o ysgol i ysgol, yn enwedig ymhlith ysgolion uwchradd. Nodwyd fod gwahaniaeth amlwg rhwng y sector cynradd a'r uwchradd, gyda'r Polisi'n gadarn yn y cynradd ond yn fwy amrywiol yn yr uwchradd. Ymhelaethwyd bod teimlad ymhlith y sector cynradd fod y sector uwchradd yn eu siomi o ran cynnal Cymreictod plant, gan nad yw hynny'n parhau'n ddigonol pan fyddant yn cyrraedd yr uwchradd.

Adroddwyd mai'r prif gasgliad yw bod angen Polisi Iaith cryno, clir a chadarn, a fydd yn nodi'n eglur beth sydd angen ei gyflawni, a bod angen monitro hynny wrth iddo fynd rhagddo.

Derbyniwyd cyflwyniad gan Bennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd yn manylu ar y sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd gan Sian Eurig (Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd) a Meirion Prys Jones. Nodwyd bod yr adborth canlynol wedi'i dderbyn o'r sesiynau ymgysylltu ynghylch y Polisi Iaith presennol:

- Bod cefnogaeth i'r Polisi Iaith ac awydd i'w ddiwygio ar draws y sir.
- Bod dim adborth penodol am sut i ddiwygio'r Polisi.
- Bod teimlad o falchder tuag at y Gyfundrefn Addysg Drochi.
- Bod awydd cryf am newid, gan fod teimlad fod y Polisi'n perthyn i gyfnod pan oedd y Gymraeg yn gryfach yn y sir, ac felly wedi dyddio.
- Bod angen esblygu'r Polisi, nid chwyldro llwyr.

Tanlinellwyd y prif negeseuon a godwyd:

- Bod canmoliaeth i'r sector cynradd am gynnal y Gymraeg.
- Bod teimlad cyffredinol o lithriad pan fydd disgyblion yn symud o'r cynradd i'r uwchradd.
- Bod y cwestiwn wedi codi ynghylch ehangu capasiti Unedau Addysg Drochi.
- Bod llais dysgwyr o blaid y Polisi.
- Bod anghysondeb ymhlith ysgolion uwchradd o ran gweithredu'r Polisi, a dymuniad i'w gysoni.
- Bod Ysgolion Friars a Thywyn wedi'u crybwyll sawl gwaith, gan danlinellu'r angen i gynllunio'n strategol dros amser i sicrhau polisi effeithiol sy'n cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Bod angen gwell perchnogaeth gan yr ysgolion a mwy o atebolrwydd gan y Cyngor, gan fod galwad gryf am gryfhau grym yr Adran Addysg i fonitro hyn.

Amlygwyd prif themâu'r sesiynau ymgysylltu o ran y Polisi ei hun, yr angen am hyfforddiant, yr her o allu recriwtio i wireddu'r Polisi a'r angen i edrych yn ofalus ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a rôl y gymdeithas ehangach i gynnal hynny.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Mynegwyd bod ymdeimlad ymysg yr aelodau etholedig o'r Pwyllgor Iaith a'r Pwyllgor Craffu nad yw'r Polisi presennol yn cynnig gwarchodaeth ddigonol i ddiogelu'r Gymraeg yn y sir. Nodwyd mai'r prif wendid yw nad yw'n bolisi sy'n cynnal defnydd iaith, heb sôn am gynyddu hynny, yng ngoleuni'r newidiadau demograffig. Nododd yr aelod ei fod yn weddol gadarn ei farn am y gwendid o ran dilyniant o un cyfnod addysg i'r llall, a cyfeiriwyd at yr angen am atebolrwydd i weithredu'r Polisi a monitro'i weithrediad. Cyfeiriwyd at ddiffyg gweledigaeth yng nghyswllt targedau'r sir i gynyddu nifer y disgyblion sy'n dilyn pynciau TGAU ac uwch fel a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), gan nodi y gallai monitro'r Polisi'n ofalus fod yn fodd o weld cynnydd dros amser.

Nodwyd bod rhai yn credu y dylai'r Polisi Iaith Addysg fod yn bolisi sy'n cyfeirio at y Gymraeg yn unig. Ymhelaethwyd y gallai hynny gefnogi penaethiaid, yn enwedig wrth wynebu ceisiadau gan rieni i newid cyfrwng pynciau ar ddiwedd Blwyddyn 9. Holwyd a ddylid ystyried cynnwys cyfeiriad at sut i sicrhau gweithlu digonol o fewn y Polisi, a'r angen i gyflwyno manteision a phwysigrwydd dwyieithrwydd, gan y bydd hynny'n cyfrannu at sicrhau gweithlu digonol yn y sir yn y dyfodol.

Nodwyd, o ran Ysgolion Friars a Thywyn, fod cytundeb y dylai Polisi Iaith Addysg Gwynedd fod yn bolisi cynhwysfawr, gan gynnwys yr ysgolion hyn, ond gyda chynlluniau clir i arwain unrhyw newid yn llwyddiannus. Ymhelaethwyd bod ymwybyddiaeth o heriau daearyddol yn Nhywyn o ran recriwtio, a'r angen i gynllunio'n fwy strategol tuag at newid.

Amlygwyd nad oedd unrhyw awgrym na datrysiad pendant ynghylch sut y dylai unrhyw bolisi diwygiedig edrych, petai'n cael ei addasu. Mynegwyd mai'r neges glir yw bod angen newid, a bod angen Polisi sy'n sicrhau caffael iaith ac sy'n gorseddu'r iaith lafar oddi mewn iddo.

Holwyd sut y gellid llwyddo i gadw cymunedau mor Gymraeg â phosibl ledled y sir, a nodwyd fod angen strategaeth i geisio dylanwadu'n gadarnhaol ar rieni i hybu ac annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol a thu hwnt. Nodwyd, yng

nghyd-destun categoreiddio ysgolion, fod sylwadau am yr angen i sicrhau dealltwriaeth o'r diffiniadau er mwyn cael gwaelodlin gadarn i unrhyw bolisi, ac i'r Cyngor ystyried beth arall ellir ei gyflawni o fewn y diffiniadau hynny.

Diolchwyd am y cyflwyniad. Mynegwyd balchder ar ran cynrychiolwyr o'r Pwyllgor a'r Pwyllgor Iaith am gael cyfle i roi mewnbwn. Nodwyd mai argraff gyntaf yr aelodau oedd y byddent yn rhan o greu'r Polisi newydd ond yn y cyfarfod, deallwyd nad hyn oedd y bwriad. Mynegwyd bodlonrwydd fod crynodeb wedi'i wneud o'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod ymgynghori, gan ofyn a fyddai'n bosibl cyhoeddi'r cofnodion hyn yn gyhoeddus a'u hatodi i'r adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor fel bod modd gweld y sylwadau.

Amlygwyd barn nad oedd yr ymgynghori a wnaed gyda'r ysgolion cynradd yn cynrychioli'n ddigonol yr ysgolion yn yr ardaloedd mwyaf Cymraeg yn Arfon, Meirionnydd a Dwyfor.

Nodwyd fod gofyn cael strategaethau gwahanol ar gyfer ysgolion Dalgylch Tywyn ac ardal Meirionnydd yn gyffredinol, gan fod yr ysgolion hynny'n dymuno bod yn fwy uchelgeisiol, gan eu bod wedi'u hadnabod o ddifri fel categori un o'r categorïau cyfredol. Mynegwyd, wrth lunio un strategaeth ar gyfer pob ysgol, nad oes modd caniatáu i rai ysgolion fod mor uchelgeisiol ag y gallent fod.

Cyfeiriwyd at yr adroddiad a oedd yn nodi'r casgliad bod angen "esblygu'r polisi" yn hytrach na chwyldro. Tanlinellwyd bod hyn yn cyd-fynd â'r pwynt nad yw pobl yn ymwybodol o'r polisi cyfredol ac yn teimlo nad yw'n ddigon clir. Mynegwyd bod hynny'n arwydd bod angen ailwampio'r Polisi Iaith yn llwyr, nid ei esblygu'n raddol. Nodwyd, yn ystod y sesiwn ymgynghori gyda Meirion Prys Jones, fod sylwadau pendant wedi'u cyflwyno ynglŷn â geiriad y polisi.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd:

- Bodlonrwydd i gynnwys cofnodion y sesiynau ymgysylltu i'r cyfarfod nesaf.
- Bod y sesiynau sy'n cael eu cyfeirio atynt yn rhai ymgysylltu, gyda'r bwriad o dynnu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosib at ei gilydd.
- Bod y wybodaeth o'r sesiynau ymgysylltu'n cael ei defnyddio i lunio'r Polisi Iaith, a wedyn bydd ymgynghori arno.
- Bod yr ysgolion wedi'u dewis er mwyn sicrhau croestoriad o'r ysgolion yng Ngwynedd.
- Ei fod wedi bod yn her i gael penaethiaid i fynychu cyfarfodydd ymgysylltu. Felly, bod cais wedi'i wneud i'r ffederasiwn i ofyn iddynt ddod â'u dalgylchoedd at ei gilydd i benderfynu pwy fyddai'n eu cynrychioli.
- Bod pob pennaeth wedi cael cyfle i fynegi barn o fewn eu dalgylchoedd, ac yna bod cynrychiolydd wedi cyflwyno'r safbwyntiau hynny yn y cyfarfodydd ymgysylltu.

Cyfeiriwyd at erthygl Golwg 360 a oedd wedi ei gynnwys yn y rhaglen fel Atodiad 3, sy'n awgrymu bod llai o le i addysg a mwy o le i bethau eraill, ond wrth ddarllen yr erthygl mae'n ymddangos ei bod yn cyfeirio at Gymru yn gyffredinol, nid ardaloedd sy'n gadarnleoedd ieithyddol fel Gwynedd. Mynegwyd bod cynnwys yr erthygl yn awgrymu bod penderfyniad wedi'i wneud ymlaen llaw. Mynegwyd barn na ddylai'r erthygl fod wedi ei gynnwys.

Cyfeiriwyd at sylwad yn y cyflwyniad ynglŷn â rôl ehangach y gymdeithas i gynnal y Gymraeg, sy'n gyson â'r penderfyniad i gynnwys yr erthygl. Nodwyd bod dealltwriaeth fod sawl elfen ynghlwm â chynnal y Gymraeg, nid addysg yn unig, ond gan ein bod yn trafod Polisi Iaith Addysg, mae angen canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ni ddylanwadu arno fwyaf. Nodwyd bod ganddynt rym absoliwt bellach ynghylch y Polisi Iaith, ond nad oes ganddynt rym tebyg dros elfennau eraill a grybwyllwyd. Mynegwyd pryder ynghylch gorddefnyddio geiriau fel "balchder" ac "agweddau," gan nodi bod angen canolbwyntio ar yr hyn y mae pobl yn ei wneud, ac nid ar eu hagweddau yn unig. Nodwyd bod angen mwy o ddewrder yn y maes hwn.

Mewn ymateb, mynegwyd anghytundeb â thermau fel "grym absoliwt," gan nad yw'r Adran Addysg yn gorfodi plant i siarad unrhyw iaith. Nodwyd bod meithrin agwedd bositif ymhlith plant a rhieni tuag at y Gymraeg yn bwysig i'w hybu i ddewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymhelaethwyd bod cynlluniau'n mynd rhagddynt yn ardal Bro Dysynni a Bangor er mwyn meithrin agwedd bositif ymysg plant a rhieni at y Gymraeg. Derbyniwyd bod angen cyfuno agwedd bositif â pholisi cryf a chadarn. Nodwyd bod rôl gan yr Adran Addysg i feithrin dinasyddion cydwybodol a byd-eang. Nodwyd nad oedd bwriad llywio barn neb drwy gynnwys yr erthygl, a'i bod wedi'i chynnwys er mwyn dangos cyd-destun yn unig.

Cyfeiriwyd at adroddiad gan ESTYN sy'n nodi bod prinder athrawon mewn sawl maes, gan gynnwys Cymraeg. Nodwyd bod ysgolion fel Tywyn yn cael anhawster cael athrawon i ddysgu meysydd drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly'n dibynnu ar athrawon Saesneg i lenwi'r swyddi. Cwestiynwyd beth mae'r adroddiad yma'n mynd i'w wneud am hyn. Cwestiynwyd a fydd y sefyllfa hon yn peri i rai plant beidio â siarad Cymraeg o gwbl.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod problem recriwtio yn her gynyddol a chenedlaethol.
- Bod gwaith yn digwydd gydag ysgolion trosiannol i sicrhau bod y gweithlu'n cael mynediad at wersi Cymraeg, a'u cefnogi i gyflwyno pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bod y tîm yn edrych ar ddadansoddiad o lefel ieithyddol y gweithlu yn yr ysgolion trosiannol, a'u bod yn cydweithio gyda'r Athrofa Genedlaethol i deilwra a darparu cyrsiau gloywi, cyrsiau codi hyder a chyrsiau Cymraeg o'r cychwyn i ddechreuwyr.
- Bod athrawon o'r ysgolion trosiannol wedi ymgeisio am gyrsiau sabothol i ddysgu Cymraeg.

Mewn ymateb i sylw bod Ysgol Friars wedi ei eithrio, cadarnhawyd nad oedd Ysgol Friars wedi ei eithrio o weithredu yn unol â'r Polisi Iaith. Ymhelaethwyd y bydd yna Bolisi Iaith ar gyfer y sir gyfan, gan gydnabod sefyllfaoedd gwahanol rhai ysgolion fel Friars a Thywyn o fewn y Polisi, a chreu cynllun gwahanol ar gyfer y Gymraeg yn y ddwy ysgol hon ac un arall. Nodwyd bod awgrym gan rai cyfranogwyr yn y cyfarfodydd ymgysylltu a oedd yn adlewyrchu'r farn honno.

Mynegwyd siom mai dim ond rhagflas o wybodaeth yw'r adroddiad hwn. Cytunwyd bod cynnwys yr erthygl wedi rhoi gogwydd anffodus ar y drafodaeth. Mynegwyd ansicrwydd ynghylch cael strategaeth unigol i wahanol ysgolion. Nodwyd yr angen gwirioneddol i fonitro'r Polisi Iaith yn y dyfodol. Mynegwyd

pryder ynghylch y term 'gorseddu iaith lafar', gan nad yw'n golygu dim ond un rhan o'r darlun. Pwysleisiwyd bod hwn yn Bolisi Iaith Addysg a bod plant ond yn cael un cyfle i ennill gafael ar y Gymraeg yn iawn, ac felly mae angen cyflwyno iaith o ansawdd uchel i feithrin perthnasedd a balchder. Mynegwyd nad oedd dim o hyn yn dod i'r amlwg o'r rhagflas o'r Polisi Iaith newydd. Nodwyd nad oes amser i gael esblygiad graddol. Mynegwyd gobaith y byddai'r Polisi Drafft yn fwy addawol na'r hyn a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Mai un Polisi Sirol fydd y Polisi Iaith newydd, gyda manylder a chynlluniau unigol ar gyfer pob ysgol.
- Nad yw'r  Polisi yn gwahaniaethu, a bod yr awydd a'r uchelgais yr un fath i'r Sir, ond y bydd cynlluniau unigol i'r ysgolion, fel y gallant ddangos dros amser sut maent yn cyflawni'r Polisi.
- Bod monitro yn mynd i fod yn allweddol i weithredu'r Polisi, a bod diffyg monitro wedi'i adnabod fel gwendid yn yr ymgysylltu.
- Mai aelod etholedig wnaeth y sylw ynglŷn â 'gorseddu iaith lafar'.

Holwyd a fwriedir rhoi sylw penodol i ddulliau monitro. Cwestiynwyd a fyddai gan yr ysgolion hawl i osod targedau gwelliant eu hunain o fewn y cynlluniau unigol a llunio Polisi Iaith unigol.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Nad yw'r Polisi Iaith, yn ei ffurf bresennol, yn Bolisi y mae'r Adran yn gallu mynnu i ysgolion ei ddilyn, ond y bydd y Polisi Iaith newydd yn orfodol.
- Bod angen rhoi cynllun unigol i helpu'r ysgolion gyrraedd targedau a'u monitro yn erbyn hynny.
- Bod angen gosod yr uchelgais o fewn y Polisi, nodi'n glir beth yw'r cynlluniau, cael cynlluniau i gefnogi ysgolion i gyrraedd y nod a monitro bod ysgolion yn cadw at y cynlluniau strategol.
- Bod y mater hwn wedi dod gerbron y Pwyllgor er mwyn adrodd ar ble y cyrhaeddwyd yn y broses ac i fod mor dryloyw â phosibl.

Ategwyd y pwynt a wnaed ynglŷn â chael mynediad at gofnodion y cyfarfodydd ymgysylltu.

Mynegwyd cefnogaeth i gryfhau'r Polisi hwn. Pwysleisiwyd bod defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn hollbwysig. Nodwyd bod cyfrifoldeb ar y Cyngor i gryfhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Nodwyd bod cyfrifoldeb ar bawb o ran defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, gan gynnwys unigolion ac aelodau etholedig, i gefnogi dysgwyr y Gymraeg mewn cymunedau a magu agwedd gadarnhaol. Nodwyd ymhellach fod gan bobl sy'n magu plant, neu'n ymwneud â phlant, gyfrifoldeb i wahodd plant o gefndiroedd di-Gymraeg i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden gyda phlant sy'n siarad Cymraeg.

Cwestiynwyd os oes gwersi wedi'u dysgu o'r peilot ym  Mangor sy'n ymwneud â phontio'r Cynradd a'r Uwchradd a allai ein helpu i wneud y pontio'n fwy llwyddiannus.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Adnabuwyd bod yna ysgolion yn nalgylch Bangor a Thywyn yn benodol lle mae iaith y plant yn syrthio i lefel C1, hynny yw, bod eu Saesneg yn gryfach na'u Cymraeg.
- Yn cydweithio â chwmni'r Frân Wen i roi cyfleoedd i blant ddefnyddio'u Cymraeg a chael hyder yn eu Cymraeg ar lafar o fewn y prosiect ym Mangor a Thywyn.
- Bod y prosiect hwn wedi mynd o nerth i nerth dros y drydedd flwyddyn.
- Bod ysgolion yn adrodd bod y plant yn datblygu hyder yn y Gymraeg a'u bod hefyd yn gweld hwb Cwmni'r Frân Wen yn Nyth ym Mangor fel canolfan y tu allan i oriau ysgol i ddefnyddio'u Cymraeg.
- Bod yr adborth o'r peilot yn gadarnhaol iawn.
- Bod gobaith parhau ac ymestyn y cyfleoedd hyn er mwyn sicrhau dilyniant a chynnal continwwm iaith, fel na fydd llithriad.

Diolchwyd am y cyflwyniad a mynegwyd gobaith gweld y cofnodion llawn o'r sesiynau ymgysylltu. Nodwyd nad oedd dim byd annisgwyl wrth weld y prif gasgliadau. Mynegwyd gobaith y bydd crynhoad o awgrymiadau personol Meirion Prys Jones fel arbenigwr caffael iaith ynglŷn â'r ffordd orau i fwrw ymlaen â chreu Polisi Iaith yng Ngwynedd.

Mynegwyd bod Polisi Iaith Addysg Gwynedd yn wan oherwydd bod Ysgolion Friars a Thywyn o fewn y Polisi Iaith, ond bod neb yn dilyn pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, heblaw am Gymraeg ei hun. Nodwyd bod y ffaith bod y Polisi'n caniatáu hynny yn dangos pa mor wan ydyw. Ymhelaethwyd bod y Polisi'n dyddio'n ôl i ddyddiau'r hen Gyngor Gwynedd, ac nad yw wedi newid llawer ers hynny, a'i hanfod yw, os nad yw rhywun yn teimlo'n abl i wneud pethau drwy'r Gymraeg, does dim rheidrwydd iddynt wneud hynny.

Mynegwyd gyda'r holl ymgynghori bod tuedd i golli golwg ar y pwynt dan sylw, sef cryfhau Polisi Iaith Addysg Gwynedd mewn ardal lle mae'r iaith yn dal yn fyw ac yn gryfach nag mewn rhannau eraill o Gymru. Ymhelaethwyd bod angen ceisio'i gryfhau gymaint â phosibl, a bod angen newid llwyr. Nodwyd bod Gwynedd yn meddu ar y demograffeg a'r adnoddau staffio i gyflwyno'r newid hwn – dewrder sydd ei angen.

**PENDERFYNWYD**
1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Bod y Pwyllgor yn craffu'r Polisi Iaith Addysg Drafft a'r Strategaeth i gefnogi gweithredu'r polisi yng nghyfarfod 10 Ebrill 2025.**
3. **Gofyn am gopi o gofnodion perthnasol y cyfarfodydd ymgysylltu.**
4. **Gwahodd aelodau'r Pwyllgor Iaith i fynychu cyfarfod y Pwyllgor ar gyfer yr eitem.**

## 7. CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI

Gosododd yr Aelod Cabinet Addysg y cyd-destun. Nodwyd bod y Cabinet wedi penderfynu yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2021 ei fod yn amserol i ad-drefnu'r canolfannau hyn a chreu Cyfundrefn Addysg Drochi newydd. Esboniwyd bod y Pwyllgor wedi mynegi dymuniad i graffu y gyfundrefn newydd ar ôl iddi gael cyfle i wreiddio. Eglurwyd bod yr Adran Addysg wedi penderfynu penodi tîm ymchwil o Brifysgol Bangor i werthuso'r Gyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd.

Ymhelaethwyd bod y tîm hwn wedi cynnal ymweliadau ac wedi siarad â rhanddeiliaid, a bydd yn adrodd yn ôl cyn bo hir gyda'i gasgliadau.

Cwestiynwyd sut y dewiswyd y tri chyfranogwr ar gyfer yr astudiaeth achos, a beth oedd y meini prawf. Nodwyd, mewn ymateb, mai'r brifysgol a ddewisodd y tri. Eglurwyd bod hyn yn dibynnu ar ganiatâd rhieni a'u bod wedi'u dewis ar hap, sy'n ddull gwyddonol o ddewis cyfranogwyr mewn astudiaethau achos. Ymhelaethwyd bod y cyfranogwyr yn dod o wahanol ganolfannau trochi.

Mynegwyd diddordeb i gael copi o'r ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb a luniwyd pan newidiwyd i'r gyfundrefn newydd. Mynegwyd pryder ynglŷn â gogwydd a ffocws yr adroddiad a'r penderfyniad cychwynnol i leihau o bum niwrnod trochi i bedwar. Nodwyd bod y ffocws, heb eithriad, ar yr unigolion sy'n mynd drwy'r system drochi, heb sôn am ymgynghori â rhieni, dysgwyr eraill yn yr ysgol, na'r gymdeithas ehangach nac aelodau etholedig. Mynegwyd bod y penderfyniad, yr adroddiad a'r ymchwil arfaethedig yn drwyadl neo-ryddfrydol ei ideoleg.

Eglurwyd, mewn ymateb, bod y gwaith ymchwil hwn yn benodol yn edrych ar y goblygiadau i blant sy'n mynd drwy'r system drochi, ond bod y pwynt ynglŷn â'r effaith ar ysgolion yn cael ei dderbyn, a sgyrsiau wedi'u cynnal gyda phenaethiaid ynglŷn â'r mater hwn. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr Adran Addysg yn barod i gryfhau neu newid y trefniadau mewn ymateb i argymhellion, ond eu bod yn disgwyl gweld beth fydd yr adroddiad yn ei ddweud cyn dod i unrhyw gasgliadau. Tanlinellwyd nad oedd unrhyw ymdrech wedi'i wneud i guddio dim, ac o ran ystyried adroddiadau a luniwyd dros gyfnod, mynegwyd bod mwy na digon o awydd i weld beth fu'r effaith. Nodwyd bod y pwynt ynglŷn â goblygiadau cydraddoldeb yn cael ei dderbyn, a bod ei ehangder o bosibl yn fwy na'r disgwyl mewn adroddiadau arferol.

Ymatebodd yr aelod  gan nodi bod disgwyl y byddai ymchwil wedi ei wneud cyn gwneud y penderfyniad i leihau dyddiadau addysg drochi. Nodwyd ei bod, o safbwynt lleygwr, yn ymddangos fel penderfyniad cyllidol.

Nodwyd o ystyried bod y penderfyniad i ailwampio'r canolfannau trochi wedi'i wneud er mwyn cael darpariaeth o ansawdd uchel, bod y nifer o athrawon wedi'u cwtogi o ddau athro i bob canolfan i un athro ac un cymhorthydd, a gostyngwyd y nifer o ganolfannau, gan newid o bum niwrnod trochi i bedwar. Mynegwyd nad yw'r math hwn o drochi yn ddwys os nad yw'n bum niwrnod. Nodwyd bod anhawster i athrawon wrth raglennu ar gyfer plant sy'n mynd i'r ganolfan am bedwar diwrnod o drochi ac yn dychwelyd i'r ysgol am un diwrnod yr wythnos. Amlygwyd  y nodir yn Atodiad 1 bod llawer o weithgareddau ymarferol megis chwaraeon ar ddydd Gwener yn yr ysgolion, ond wrth holi, nodwyd nad yw hyn yn digwydd. Nodwyd bod plant yn derbyn deunyddiau ar eu cyfrifiaduron gan y ganolfan, ond eithaf anaml mae'r uned iaith yn ymweld i archwilio a yw'r plentyn yn iawn. Cwestiynwyd a yw hyn yn wirioneddol fuddiol i'r plentyn sy'n cael ei drochi.

Nodwyd bod rhai plant, wrth fynd yn ôl i'r ysgol am un diwrnod yr wythnos, yn teimlo'n nerfus ynglŷn â'u gallu i ddilyn pethau. Cadarnhawyd bod y ffaith hon, o ganlyniad, yn gallu arwain at athrawon yn siarad mwy trwy gyfrwng y Saesneg, gan newid arferion ieithyddol y dosbarth yn llwyr. Mynegwyd bod hyn heb ei fesur o gwbl yn yr ymgynghoriad. Ymhelaethwyd y credir nad oedd y cwestiynau

a ofynnwyd fel rhan o'r ymchwil yn caniatáu i bobl fynegi sylwadau ar effaith y trefniadau ar weddill y plant na'u harferion ieithyddol. Mynegwyd bod hyn yn fater sy'n peri pryder.

Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y gwerthusiad o'r gyfundrefn yn rhoi ffocws clir ar integreiddio'r diwrnod pontio'n ôl i'r prif lif. Nodwyd bod staff yr ymchwil wedi dilyn y plant yn ystod yr wythnos gyntaf yn yr unedau trochi, ac ar y Dydd Gwener, gan hefyd arsylwi diwedd cyfnod y plant ar y cwrs er mwyn cymharu lefel eu hyder. Ymhelaethwyd bod y tîm wedi dilyn y plant yn y prif lif i asesu effaith y pontio arnynt, faint o ddefnydd iaith sydd ganddyn nhw yn yr ysgolion a beth yw'r effaith ar yr ysgolion.

Dymunwyd gweld unrhyw ddogfennau perthnasol ynglŷn â sut y penderfynwyd cwtogi'r dyddiau trochi.

Mynegwyd siom ynglŷn â'r sylwadau a fynegwyd am y newidiadau i'r drefn addysg drochi. Nodwyd er bod ystyriaethau cyllidol yn berthnasol i bob gwasanaeth, llwyddwyd i ddenu llawer mwy o gyllid nag a fuddsoddwyd yn y gwasanaeth hwn. Amlygwyd mai'r prif reswm dros adolygu'r drefn oedd nad oedd wedi newid ers ei sefydlu yn 1984, a'i bod erbyn hyn wedi dyddio ac yn aneffeithlon. Croesawyd yr adolygiad hwn a mynegwyd gobaith y bydd yn dangos y ffordd ymlaen ac yn cyfarch y sylwadau negyddol. Tanlinellwyd barn y bydd y ffordd newydd yn llawer mwy effeithiol.

Mynegwyd y farn gan un aelod nad oedd trochi 80% o'r amser yn ddigonol, a'u bod yn credu ein bod yn cymryd cam yn ôl wrth ganiatáu hynny. Cyfeiriwyd at yr holiadur i rieni a'r cwestiynau, gan nodi bod yr Adran Addysg yn chwilio am atebion i gyfiawnhau'r hyn y mae'r Cyngor eisiau ei wneud, heb fod hynny'n gwbl wrthrychol. Mynegwyd siom bod athrawon yn gorfod ymdopi â mwy o bwysau gwaith ar ddydd Gwener.

Nodwyd, mewn ymateb, nad yw'r trochi'n gyfan gwbl llwyr beth bynnag, gan fod plant gartref dros y penwythnos. Tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o ysgolion yng Ngwynedd yn cynnwys canran uchel o blant sy'n defnyddio Saesneg ar iard yr ysgol, ac nad ydynt yn blant sy'n mynd i'r canolfannau trochi'n unig. Derbyniwyd y pwynt bod rhyddhau plant o'r canolfannau trochi ar ddydd Gwener yn gallu bod yn anghyfleus i athrawon, yn enwedig o gofio'r llwyth gwaith sydd ganddynt. Mynegwyd gwerthfawrogiad tuag at athrawon sy'n barod i addasu cynlluniau a gwaith ar gyfer lefelau gwahanol o allu plant. Mynegwyd awydd i dderbyn yr adroddiad fel bod modd ystyried y mater mewn modd gwyddonol. Nodwyd pryder ynglŷn â'r naws a fynegwyd mewn perthynas â'r newidiadau, gan bwysleisio'r rôl bwysig sydd gan gymorthyddion o fewn canolfannau trochi.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Bod y Pwyllgor yn craffu Cynllun Gweithredu Argymhellion Gwella'r Gyfundrefn Addysg Drochi yng nghyfarfod 10 Ebrill 2025.**

## 8. BRÎFF YMCHWILIAD CRAFFU TREFNIADAU DIOGELU MEWN YSGOLION

Nodwyd y craffwyd ar drefniadau diogelu mewn ysgolion yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Gorffennaf 2024. Cafwyd trafodaeth anffurfiol ar ôl y cyfarfod

ynghylch y posibilrwydd o gynnal Grŵp Tasg a Gorffen neu Ymchwiliad Craffu i'r maes. Daethpwyd i'r casgliad y dylid cynnal trafodaeth bellach yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 5 Medi 2024. Mynegwyd pryder gan yr aelodau a oedd yn bresennol ynghylch gweithredu'r trefniadau diogelu o fewn ein hysgolion. Ystyriwyd brîff drafft ar gyfer yr ymchwiliad craffu yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 9 Ionawr 2025.

Nodwyd mai'r prif gwestiwn y bydd yr ymchwiliad yn ei gyfarch yw: "A yw trefniadau diogelu yn ysgolion y sir yn briodol ac yn cael eu gweithredu'n gyson?". Nodwyd bod yr ymchwiliad yn bwriadu ystyried trefniadau cyfredol yr awdurdod o ran diogelu mewn ysgolion, ynghyd â threfniadau mewn sampl o ysgolion.

Gwahoddwyd aelodau, yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 9 Ionawr 2025, i fynegi diddordeb i fod yn aelodau o'r ymchwiliad. Daethpwyd i'r casgliad y dylid anfon e-bost at holl aelodau'r Pwyllgor er mwyn gofyn iddynt nodi pa gyrff llywodraethu ysgolion maent yn aelodau ohonynt. Pwysleisiwyd yn yr e-bost y byddai'n ofynnol i aelodau sicrhau eu bod wedi cwblhau'r "Hyfforddiant Diogelu Plant ac Oedolion" er mwyn bod yn rhan o'r ymchwiliad.

Nodwyd y gall uchafswm o bump aelod fod yn rhan o'r ymchwiliad ac, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, bod gofyn i'r aelodaeth gynnwys cynrychiolaeth o ddim llai na dau grŵp gwleidyddol gwahanol. Trafodwyd, o ystyried ei fod yn fater addysg, y byddai'n briodol i'r aelodaeth gynnwys un aelod cyfetholedig gyda phleidlais ar faterion addysg yn unig.

**PENDERFYNWYD**

1. **Mabwysiadu'r brîff.**
2. **Ethol yr aelodau canlynol i ymgymryd â gwaith yr ymchwiliad:**
   - **Y Cynghorwyr Dawn Lynne Jones, Cai Larsen, Gwynfor Owen, John Pughe Roberts a Dyfrig Siencyn**
   - **Aelod Cyfetholedig - Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon)**
   - **Aelod wrth gefn - Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 1.00yp

Cadeirydd